Y NORMANIAID

Dylanwad y Normaniaid ar Ogledd Cymru

Yn 1066 bu Gwilym, Dug Normandi, a'i fyddin yn fuddugoliaethus yn erbyn byddin Eingl-Sacsonaidd Harold Godwinson yn Hastings ar arfordir deheuol Lloegr. Cafodd Gwilym ei goroni'n Frenin Lloegr ac fe loriodd y fyddin Normanaidd unrhyw wrthwynebiad Seisnig yn systematig.

Ar ffin Cymru roedd tair Iarllaeth gyda'u pencadlysoedd yng Nghaer, Yr Amwythig a Henffordd, a cheisiodd y Normaniaid goncro Cymru o'r tair Iarllaeth hon.
Yn yr 1070au a'r 1080au cawsant beth llwyddiant yng ngogledd Cymru gan adeiladu cestyll mwnt a beili i warchod y tiroedd a goncrwyd.
Roedd y cestyll yn sefyll ar bentwr o bridd (motte) gyda thŵr pren, ynghyd â rhagfur pridd gyda phalisâd er mwyn gwarchod rhan a elwid yn beili lle y byddai adeiladau eraill.

Marwolaeth Harold 1066 – Brodwaith Bayeux

Byr oedd rheolaeth y Normaniaid yng ngogledd Cymru gan iddynt gael eu hel ymaith gan y Cymry gyda chymorth y Llychlynwyr yn yr 1090au. Roedd brwydr Aberlleiniog ar Ynys Môn yn un o'r brwydrau pwysig lle y gorchfygwyd y Normaniaid.
Bu Brwydr Aberlleiniog yn 1098 pan ymosododd Gruffydd ap Cynan, a ddaeth yn frenin ar Wynedd, ar gastell Normanaidd Aberlleiniog. Roedd y castell yn cael ei warchod gan y Ieirll Normanaidd Hugh o Gaer a Hugh o'r Amwythig. Roedd y Brenin-Lychlynnwr Magnus Droednoeth o Norwy yn yr ardal hefyd gyda'i lynges, ac ymunodd yntau â'r frwydr. Mae'n anodd dweud ar ochr pwy yr oedd y Brenin Magnus ond fe laddodd yr Iarll Hugh o'r Amwythig ac roedd hyn o gymorth mawr i'r Cymry.
Ceisiodd Brenhinoedd Lloegr droeon i goncro Cymru wedi hynny ond ni chafwyd unrhyw lwyddiant hyd nes goresgyniad Cymru gan Edward I yn 1283.

Llinell amser ar gyfer y Wynedd Ganoloesol

AD 1066 – Brwydr Hastings, William I yn dod yn Frenin Lloegr
1086-1094 –Y Normaniaid yn meddiannu Gwynedd ond yn cael eu hel ymaith gan Gruffydd ap Cynan
1081-1137 – Teyrnasiad Gruffydd ap Cynan
1137-1170 – Teyrnasiad mab Gruffydd, Owain Gwynedd. Cyfnod y ddau frenin yma oedd uchafbwynt annibyniaeth Cymru:- sefydlwyd mynachlogydd, adeiladwyd eglwysi a datblygodd bywyd cymdeithasol ac economaidd.
1195-1240 – Teyrnasiad Llywelyn ab Iorwerth ("Llywelyn Fawr"), ymestyn teyrnas Gwynedd
1255-1282 – Teyrnasiad Llywelyn ap Gruffydd ("Llywelyn ein Llyw Olaf")
1283 – Edward I o Loegr yn gorchfygu Cymru
1283-1292 – Cestyll Edwardaidd yn cael eu hadeiladu yng Ngwynedd

Y NORMANIAID

Ymhell cyn rheoli Cymru roedd dylanwad y Normaniaid yn amlwg. Roedd Lloegr yng nghyfnod y Normaniaid yn deyrnas bwerus a chyfoethog a daethant â syniadau newydd gyda hwy o Ewrop. Nid oedd tywysogion y teyrnasoedd Cymreig am gael eu hamddifadu o'r technolegau newydd a'r datblygiadau cymdeithasol a welwyd. Adeiladodd y Normaniaid gestyll; yn gyntaf ar ffurf mwnt a beili ac yna cestyll o garreg. Mabwysiadodd y Cymry'r technolegau milwrol hyn. Mae Tomen y Rhodwydd, Llandegla, Sir Ddinbych yn enghraifft o gastell mwnt a beili a adeiladwyd gan dywysog Cymreig. Cyflwynodd y Normaniaid arddull bensaernïol newydd a elwir erbyn heddiw'n Romanésg, gan ddefnyddio bwáu hanner cylch a cherfiadau grotésg o anifeiliaid. Mabwysiadwyd yr arddull hwn yng Nghymru ar gyfer y nifer cynyddol o eglwysi a gâi eu hadeiladu.

Sêl o Abaty Awstinaidd Zonnebeke, Gwlad Belg

Roedd yr Eglwys yn fudiad rhyngwladol a fu'n arwain y duedd i fabwysiadu'r syniadau newydd. Datblygwyd system o blwyfi, a chan bob un ohonynt eglwys a gâi eu grwpio ynghyd mewn esgobaethau yn cael eu rhedeg gan esgobion o dan awdurdod Archesgob Caergaint yn Lloegr. Roedd y ddwy esgobaeth yng ngogledd Cymru wedi eu canoli ar Fangor a Llanelwy. Sefydlwyd mynachlogydd ac abatai gan y Tywysogion Cymreig, ond roedd y sefydliadau hyn yn perthyn i fynachlogydd y cyfandir ac yn dod â rheolau newydd ar gyfer mynachod, a chynnig cysylltiadau newydd a ffyrdd newydd o ddysgu.

SEAL OF THE ABBEY OF THE AUSTIN CANONS OF SONNEBECA, IN THE DIOCESE OF YPRES.

(Enlarged to twice natural size.)

Matrics sêl yw'r gwrthrych hwn. Mowld ydyw a gafodd ei gynllunio ar gyfer creu delwedd ar gŵyr. Byddai cwyr coch yn cael ei doddi a'i ollwng ar ddogfen i'w selio ac yna rhoddid y matrics sêl ar y cwyr er mwyn gadael delwedd. Cafodd ei ganfod yn y 19eg ganrif rywle ym mhlwyf Bangor. Cyhoeddwyd erthygl ar y gwrthrych yn 1893 (gweler y Ffynonellau Hanesyddol) ac fe'i rhoddwyd i Amgueddfa Bangor. Mae'r sêl yn dyddio'n ôl i'r 13eg ganrif ac roedd yn perthyn i abaty, ond nid abaty o Gymru. Daeth o Abaty Awstinaidd yn Zonnebeke neu Sonnebeca yng Ngwlad Belg.

Y NORMANIAID

Castell Caernarfon

Cestyll Edward I

Pan lwyddodd Edward I yn y diwedd i goncro Cymru, daeth dylanwad y Normaniaid yn llawer mwy grymus a gorthrymol.
Adeiladwyd cestyll mawr carreg i ddominyddu'r wlad a sefydlwyd trefi newydd a waliau i'w gwarchod.
Roeddynt wedi eu cynllunio i ddominyddu'r tirwedd ac i atgoffa pobl o bwy oedd yn rheoli bellach. Roedd y cestyll wedi eu gwarchod yn arbennig o dda rhag i'r Cymry benderfynu ymladd yn ôl.

Disodlwyd y llysoedd Cymreig a arferai weinyddu'r wlad gan y cestyll, a chyflwynwyd deddfau Seisnig newydd.
Er hynny byddai'r cyfreithiau Cymreig yn dal i gael eu defnyddio o bryd i'w gilydd hyd nes uno Cymru a Lloegr yn swyddogol gan y Ddeddf Uno yn 1536.

Castell Biwmaris

Crochenwaith o Gastell Biwmares

Pan oedd Castell Biwmares yn cael ei glirio ar gyfer y cyhoedd yn 1934 canfuwyd crochenwaith a gwrthrychau eraill. Roedd y crochenwaith canoloesol wedi ei dorri'n ddarnau mân ac mae gan lawer o'r darnau sglein gwyrdd trwchus sy'n nodweddiadol o'r cyfnod. Roedd llawer o'r gwrthrychau hyn yn biseri ar gyfer dal dŵr a diodydd eraill a gall rhai ohonynt fod wedi dod o dde Ffrainc. Mae gan un potyn anarferol (sy'n cael ei arddangos) bîg anthropomorffig. Golyga hyn fod pen person ar bîg y jwg. Mae gan y pen farf a chlustiau mawr iawn wedi eu haddurno gyda dotiau.

Pîg anthropomorffig jwg o Gastell Biwmares

Y NORMANIAID

Llan-faes

Gellir canfod enghraifft dda o ddylanwad y Normaniaid yn hanes Llan-faes, Ynys Môn. Dim ond clwstwr o dai o amgylch yr eglwys sydd yno bellach ond yr oedd yn arfer bod yn lle pwysig. Yn y 13eg ganrif roedd gan Lan-faes lys brenhinol a oedd yn ganolfan weinyddol i'r brodordy Ffransisgaidd, ac eglwys gyfoethog. Datblygodd tref yno a oedd yn un o brif ganolfannau masnachol teyrnas Gwynedd, a chanolbwynt ar gyfer allforio gwin. Yn 1294 dechreuodd Edward I adeiladu castell yn y dref gyfagos, Biwmares. Symudwyd y farchnad a'r fferi o Lan-faes i'r dref newydd, na cheid byw ynddi os nad oeddech yn Sais. Er mwyn atal cystadleuaeth a bygythiad tref Llan-faes, symudwyd ei holl drigolion i ochr arall Ynys Môn lle'r adeiladwyd bwrdeistref newydd iddynt a ddatblygodd maes o law i fod yn dref Niwbwrch.

Teils Llan-faes

Sefydlwyd y Brodordy Ffransisgaidd yn Llanfaes gan Lywelyn ab Iorwerth yn 1237 - y brodordy Ffransisgaidd cyntaf yng ngogledd Cymru. Claddwyd y Dywysoges Siwan, gwraig Llywelyn yno. Yn 1400 llosgwyd y brodordy gan fyddin Harri'r IV gan fod y brodyr yn cefnogi Owain Glyndŵr a'i wrthryfel, ond cafodd ei ail-sefydlu yn 1414 gan Harri'r V.

Nid oes dim o olion y brodordy wedi goroesi, ond cafodd tŷ o'r enw Friars ei adeiladu yno yn y 19eg ganrif. Cafodd y perchnogion hyd i lawer o ddarnau o deils llawr, cerrig wedi eu cerfio a darnau o gerrig beddi o'r brodordy. Rhoddwyd y teils i'r amgueddfa.

Y NORMANIAID

Llyfryddiaeth

Arnold, C. J. 2001 Excavation of "Ty Newydd", Ynys Enlli (Bardsey Island), Gwynedd', *Archaeologia Cambrensis*,

Davies, J., 1996. *The Making of Wales*, Cadw

Griffith, J. E., 1893 'Seal of the Abbey of Sonnebeca, in Belgium', *Archaeologica Cambrensis*, 5th Series, Vol. X, No. XXXVIII,

Hague, D. B. 1960 'The medieval church on the Island of St Tudwal', *Transactions of the Caernarvonshire Historical Society*,

Hand, C. R., 1924. Llanfaes Friary and its mystery monuments, *Archaeologia Cambrensis* LXXIX

Johnstone, N., 2000. Llys and Maerdref: the royal courts of the Princes of Gwynedd, *Studia Celtica*, XXXIV,

Lynch, F., 1986. *Bangor Catalogue of Archaeological Material*,

Lynch, F., 1995. *A Guide to Ancient Historic Wales – Gwynedd* London: HMSO / Cadw

RCAHMW 1937. *An Inventory of the Ancient Monuments in Anglesey*. London: HMSO

Royal Commission on Ancient and Historical Monuments in Wales (1964) *An Inventory of the Ancient Monuments in Caernarvonshire* Volume **3**: West. The Cantref of Lleyn. London: HMSO

O'Neil, B. H. St J., 1935. Pottery from Beaumaris Castle, *Archaeologia Cambrensis* XC

Smith, S., 2004, Castell Aberlleiniog, Anglesey and Cronk Howe Mooar, Isle of Man: Related Monuments?, *Transactions of the Anglesey Antiquarian Society and Field Club*, 31-45.)